***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1504 (Cy.176)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg y Barri a Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Glan Hafren (Diddymu) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *14 Mehefin 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *17 Mehefin 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Awst 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 27 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**) i'r Ysgrifennydd Gwladol ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Yn unol ag adran 27(2) o'r Ddeddf honno, mae Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Caerdydd a'r Fro ("*Cardiff and Vale College Further Education Corporation*")(**3**) wedi cydsynio i drosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg y Barri ("*Barry College Further Education Corporation*")(**4**) a Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Glan Hafren ("*Coleg Glan Hafren Further Education Corporation*")(**5**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg y Barri ("*Barry College Further Education Corporation*") a Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Glan Hafren ("*Coleg Glan Hafren Further Education Corporation*"), yn unol ag adran 27(7) o'r Ddeddf honno.

(**1**) 1992 p.13; Diwygiwyd adran 27 gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 (O.S. 2005/3238), paragraffau 13 a 16(a) i (c) o Atodlen 1; gan Orchymyn Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/1080), paragraffau 18 a 19(a) a (b) o Atodlen 1; gan Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddiant 2007 (p.25), paragraffau 6 a 8 o Atodlen 1; a chan Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddiant 2007, Atodlen 2, ond adeg gwneud y Gorchymyn hwn nid yw'r apelau perthnasol yn Atodlen 2 wedi eu cychwyn.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 27 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), paragraff 30 o Atodlen 11.

(**3**) A sefydlwyd gan Orchymyn Coleg Caerdydd a'r Fro (Corffori) 2011 (O.S. 2011/659 (Cy. 97)).

(**4**) Sefydlwyd Corfforaeth Addysg Bellach Coleg y Barri gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1992 (O.S. 1992/2097).

(**5**) Sefydlwyd Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Glan Hafren gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1992 (O.S. 1992/2097).

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg y Barri a Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Glan Hafren (Diddymu) 2011 a daw i rym ar 1 Awst 2011.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**6**); ac

ystyr "yr Hen Gorfforaethau" ("*the Old Corporations*") yw Corfforaeth Addysg Bellach Coleg y Barri ("*Barry College Further Education Corporation*") a Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Glan Hafren ("*Coleg Glan Hafren Further Education Corporation*").

**Diddymu a throsglwyddo**

**3.** Ar 1 Awst 2011 mae pob un o'r Hen Gorfforaethau wedi eu diddymu ac mae eu holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau wedi eu trosglwyddo yn unol ag adran 27(2) o'r Ddeddf i Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Caerdydd a'r Fro ("*Cardiff and Vale College Further Education Corporation*"), sef corff corfforaethol sydd wedi ei sefydlu at ddibenion sy'n cynnwys darparu cyfleusterau neu wasanaethau addysgol.

**Trosglwyddo Staff**

**4.** Mae adran 26(2), (3) a (4) o'r Ddeddf yn gymwys i unrhyw berson a gyflogir gan yr Hen Gorfforaethau yn union cyn 1 Awst 2011 fel petai cyfeiriadau yn yr adran honno—

(a) at berson y mae'r adran honno yn gymwys iddo yn gyfeiriadau at berson sy'n gyflogedig fel hynny;

(b) at y dyddiad gweithredol yn gyfeiriadau at 1 Awst 2011;

(c) at y trosglwyddwr yn gyfeiriadau at unrhyw un o'r Hen Gorfforaethau sy'n cyflogi'r person yn union cyn 1 Awst 2011; ac

(ch) at y gorfforaeth yn gyfeiriadau at Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Caerdydd a'r Fro ("*Cardiff and Vale College Further Education Corporation*").

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

14 Mehefin 2011

(**6**) 1992 p.13.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r corfforaethau addysg bellach a sefydlwyd i redeg Coleg y Barri ("Barry College") a Choleg Glan Hafren a hynny'n effeithiol o 1 Awst 2011 ymlaen. Mae'n darparu ar gyfer trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau pob corfforaeth i Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Caerdydd a'r Fro ("Cardiff and Vale College Further Education Corporation") ac mae'n diogelu hawliau cyflogaeth cyflogeion y corfforaethau a ddiddymwyd drwy gymhwyso, gydag addasiadau, adran 26(2) i (4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ("y Ddeddf").

Effaith cymhwyso adran 26(2) i (4) o'r Ddeddf yw cadw contractau cyflogaeth cyflogeion y corfforaethau a ddiddymwyd fel petai'r contractau cyflogaeth wedi cael eu gwneud yn wreiddiol rhwng y cyflogeion hynny a Chorfforaeth Addysg Bellach Caerdydd a'r Fro ("Cardiff and Vale College Further Education Corporation"). Daw cyflogeion y corfforaethau a ddiddymwyd yn gyflogeion Corfforaeth Addysg Bellach Caerdydd a'r Fro ("Cardiff and Vale College Further Education Corporation") o 1 Awst 2011 ymlaen.

Ni luniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn, gan na fydd yn effeithio ar gostau busnes.